# CADAIR Y BARDD

Gan DEWI WILLIAMS

YN ARCHIFDY Caernarfon mae casgliad bychan o lythyrau a anfonwyd gan Sion Wyn o Eifion at ei noddwr, John Williams, Tu hwnt i'r Bwlch, Porthmadog, asiant stad Tremadog. Mewn llythyr dyddiedig Medi 16 1835, diolcha am y gofal arferol a'r sylw a dderbyniodd pan ar ymweliad â chartref John Williams. Gwerthfawroga y gymwynas o ail-beintio'r 'phaeton' fechan y teithiai Sion Wyn ynddi wedi i nifer o'i gyfeillion ei chyflwyno iddo rhyw ddeng mlynedd ynghynt. Ychwanega yn ei Saesneg safonol y sylw canlynol:

*"Mae'r gadair freichiau brydferth a chyfleus a bwrcaswyd i mi gan Mrs Williams a chwithau ag y sydd o'm blaen am y rhan helaethaf o'r dydd yn fy atgoffa yn barhaus o'ch caredigrwydd."*

Mae'n bur debyg mai dyma'r gadair a welir yn y darlun ar ei newydd wedd, oherwydd iddi gael ei hail-orchuddio beth amser yn ôl. Diau mai ynddi y rhoddid yr ymwelwyr anrhydeddus i eistedd wrth ymgomio â'r bardd yn ei wely wensgot yn Nhy Newydd, Chwilog.



*Gorchudd newydd ond hen gadair Sion Wyn*

Perchennog y gadair yw Mr O D Morris, llawfeddyg wedi ymddeol yn swydd Surrey, un o Borthmadog yn enedigol. Yn 'Henar', Ffordd y Garth, y magwyd ef ac yno yr oedd y gadair ynghyd â nifer o lythyrau Sion Wyn. 'Roedd y bardd yn hen-hen ewythr i fam O D Morris a gall hawlio cysylltiad yn ogystal gyda John Williams,Tu hwnt i'r Bwlch.

Cyflwynwyd darlun enwog Ellis Owen Ellis, Bryn Coch, Abererch o'r bardd gorweddiog i'r Llyfrgell Genedlaethol gan y diweddar Morris Roger Jones, ewythr i O D Morris. Rhoddir y parch dyladwy gan y teulu i'w olyniaeth gan mai Sion Wyn yw enw yr ŵyr ieuengaf.

(Diolch i Fwrdd Golygyddol y 'Ffynnon', Papur Bro Eifionydd, am ganiatad i ddyfynnu o hanes y gadair a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr.)

## COLLI E.D.

**FEL yr âi'r rhifyn hwn trwy'r wasg bu farw'n sydyn E.D. Jones, gŵr bonheddig, ysgolhaig, cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol a Llywydd Cymdeithas Bob Owen. Mawr y golled.**

*O dud. 10*

Rhos' am rai blynyddoedd. Bu'r profiad hwn o fudd mawr iddo pan gymerodd Y Rhedegydd drosodd yn gyfangwbl yn 1909.

Wedi prynu'r papur, symudodd J D Davies y newyddiadur yn ôl i'w hen gartref yn Swyddfa'r Rhedegydd, a chredaf mai yno yr argraffwyd y papur am y 42 mlynedd dilynol. Fel W Lloyd Roberts o'i flaen, bu'n hynod ddiwyd gyda'r newyddiadur, ac yn aml byddai'n rhaid iddo weithio arno ddydd a nos. Bu'n ei olygu am flynyddoedd maith hefyd, ac efallai mai ei fawredd fel golygydd oedd y ffaith iddo roi cyfle i rai arfer y grefft o ysgrifennu ac i feirdd yr ardal arddangos eu gwaith ar dudalennau'r papur.

* * *

COFIER, nid y 'Glorian' a'r 'Gloch' oedd yr unig newyddiaduron lleol a gystadlai â'r Rhedegydd yn y cyffiniau yma yn ystod ei hanes. Bu rhai byrhoedlog fel 'Y Gwir' (1889) a'r 'Chwarelwr' (1891) o Wasg Humphrey Evans, yn ogystal â rhai a gafodd ychydig mwy o lês ar eu bywyd, fel 'Yr Arweinydd' (1906-1916), ac 'Yr Aelwyd' (1908-1916). Ond ni lwyddodd yr un ohonynt i ddisodli'r hen ffefryn, ac yn wir, yr unig newyddiadur a oroesodd y Rhyfel Byd Cyntaf o blith papurau Blaenau Ffestiniog oedd Y Rhedegydd.

Serch hynny, mae'n wir dweud i'r 'Gloch' ail-ymddangos o'r wasg yn ystod y dauddegau a pharhau tan y tridegau.

* * *

FE DDYLID cofio fod gan Y Rhedegydd, fel llawer papur newydd arall, ei ddosbarthwyr. Dylid pwysleisio hefyd nad yn y Swyddfa a chorneli'r Stryd Fawr a'r mân-strydoedd yn unig y gwerthid y newyddiadur chwaith. Yn ffodus iawn i'r Rhedegydd bu ganddo ddosbarthwyr gweithgar a chydwybodol iawn ar hyd y blynyddoedd, a bu hynny'n fodd i gadw'r gwerthiant yn bur uchel.

Pan oedd Jehosaphat Jones yn gweithio yn Chwarel Croesor byddai ef yn cludo sypyn o Redegydd i fyny yno a gwerthu yn y baricsod. Ar ei ôl ef bu John a Catrin Jones yn eu gwerthu yno. Cerddent hwythau ddwywaith yr wythnos, boed law neu hindda, i fyny drwy Gwm Orthin i Chwareli Rhosydd a Chroesor i werthu'r Faner, Y Genedl, a'r Herald Gymraeg yn ogystal. Dilynwyd hwy gan eu merch Kate (Mrs Kate Davies yn ddiweddarach) a ddechreuodd ddosbarthu'r papur pan oedd hi oddeutu naw oed. Ychydig cyn i W Lloyd Roberts roi'r gorau i'r papur yn 1906 roedd hi'n gwerthu 545 dwsin o'r Rhedegydd mewn dau fis. Y tâl am hynny yn ôl 4½c y dwsin oedd £10.4s.4c.

Ar ei hôl hi, daeth ei mab, y diweddar Mr John Jones Davies (Emu) i ddosbarthu'r papurau o ddrws i ddrws am flynyddoedd lawer a than ddyddiau olaf yr hen bapur. Ceir amryw o straeon amdano yn ystod ei wasanaeth ffyddlon i'r newyddiadur, a dyma un a ymddangosodd yn Y Rhedegydd, Gorffennaf 27, 1950:

'Un tro pan ddigwyddodd ryw anffawd i beiriannau argraffu Y Rhedegydd ac nad oedd obaith cyhoeddi y papur y diwrnod hwnnw, aeth John at ei gwsmeriaid i'w hsybysu am y siomiant. Yr oedd un hen frodor wedi myned i'w wely tua deg o'r gloch y nos. Cnociodd John ar y drws, a dyma'r hen gyfaill yn neidio o'i wely, a John yn dweud,

"Ni ddaw Y Rhedegydd allan heno, y mae'r peiriant argraffu wedi torri!"

"Cer oddi yma yr adeg yma o'r nos, y chdi a'th Redegydd."

"O!" meddai John, "meddwl yr oeddwn na fedrwch chwi gysgu heb ei ddarllen."

* * *

ER I'R Rhedegydd oroesi'r Ail Ryfel Byd, ni ddaeth drwyddo'n hollol iach, ac ar ôl marwolaeth J D Davies, ei berchennog a'i olygydd yn 1948, dechreuodd yntau nychu hefyd. Etifeddwyd y papur a'i broblemau gan Gwilym M Davies, mab J D Davies. Syrthiodd yr olygyddiaeth a'r gwaith o ofalu am y swyddfa i'w ran hefyd, ond wedi rhyw flwyddyn roedd y papur yn dal mewn sefyllfa ddigon symol. 'Roedd ei gylchrediad wedi gostwng i 1,750, y costau argraffu wedi treblu, ac ar ben hynny, dyblodd cyflogau'r staff.

Er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa, rhoddodd Gwilym Davies wahoddiad i J Ellis Williams, y llenor a'r dramodydd i roi cynnig ar ei olygu. Cytunodd yntau i wneud hynny, a dechreuodd fel golygydd newydd Y Rhedegydd ym mis Mawrth 1950. Cynlluniodd ddiwyg hollol newydd iddo a thrwy gynorthwy nifer o lenorion a beirdd yr ardal, ceisiodd well amrywiaeth yn ei gynnwys. Y nod oedd dyblu'r cylchrediad cyn diwedd y flwyddyn, ond yn anffodus, ni lwyddwyd i'w gyrraedd, er iddo gynyddu i oddeutu 3,250.

Golygodd J E Williams 83 o rifynnau i gyd, ac yna daeth y diwedd. Yn ei gyfrol 'Moi Plas' (1969), dywed y golygydd beth ddigwyddodd wedyn:

"'Roeddem wedi pesgi digon ar y cylchrediad i fynd â'r papur i'r farchnad, ac ym Medi 1951 gwerthwyd Y Rhedegydd i berchnogion Y Cymro. Gresyn o'r mwyaf oedd hynny."